# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Dyddiad yr arolygiad: 09/02/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Agwedd nodedig o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yw'r uchelgais, annibyniaeth a balchder yn eu Cymreictod y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn eu harddangos. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o gwmpas y safle, gan drin eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr gyda pharch.

Mae'r llywodraethwyr ac arweinwyr ar bob lefel yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gwelliant a mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae cyswllt agos rhwng prosesau hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a dysgu proffesiynol yr ysgol, ac o ganlyniad, mae hyn wedi arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu a'r gefnogaeth ar gyfer lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion o fewn a thu hwnt i'r gwersi. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn diwallu dyheadau ac anghenion disgyblion. Serch hyn, mae cwricwlwm presennol Blwyddyn 9 yr ysgol yn cyfyngu ar ehangder y profiadau. Mae'r disgyblion yn elwa o ystod gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol.

Mewn llawer o achosion, mae'r addysgu yn effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus er mwyn adeiladu dealltwriaeth disgyblion a'u paratoi i ymdopi â thasgau sy'n eu herio. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r annibyniaeth ac uchelgais y mae'r disgyblion yn eu harddangos, ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n galed yn eu gwersi. Maent yn cyfrannu'n gryf at fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy gefnogi disgyblion iau gyda datblygu eu medrau.

Mae gweithdrefnau effeithiol i hybu presenoldeb ac ymddygiad da, ac i gefnogi lles disgyblion. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion fynegi barn a datblygu medrau arweinyddiaeth yn gryfder.

Mae cefnogaeth gadarn yn cael ei darparu i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yng Nghanolfan Ethni, sef uned anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod lleol sydd yn rhan o'r ysgol, mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Maent yn tracio cynnydd y disgyblion yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y profiadau dysgu wedi eu teilwra i anghenion y disgyblion. Mae staff yn cefnogi'r disgyblion yn dda, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y ganolfan yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau a'u sgiliau bywyd.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at yr amrediad llawn o brofiadau dysgu hyd ddiwedd Blwyddyn 9 i gydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru

A2 Lledaenu'r arferion addysgu arbennig a welwyd yn y gwersi gorau er mwyn cryfhau ansawdd yr addysgu hyd yn oed ymhellach

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2026